Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant

**Llanrhaeadr Ym Mochnant**
**Croesoswallt**
**Swydd Amwythig**
**SY10 0EL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 73 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 61 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 9.7% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 21.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 37.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 05/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 13/06/2022 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Llanrheadr ym Mochnant yn ysgol hapus a chartrefol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus wrth greu ethos teuluol, cyfeillgar a Chymreig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol yn fawr iawn. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, sef 'Llwybrau Llwyddiant yn Llifo'n Llan'. Mae'r weledigaeth hon yn cefnogi athrawon i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sydd yn ennyn a chynnal brwdfrydedd, a diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus.

Ar y cyfan, mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, cywir a dibynadwy. Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n gymorth defnyddiol i ddisgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau sylfaenol yn gryf ar eu taith drwy'r ysgol. Maent yn datblygu'n fathemategwyr hyderus ac yn cael gafael gadarn ar y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid ydynt yn mireinio darnau o ysgrifennu estynedig yn ddigonol i'w galluogi i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach.

Ceir amrediad eang o gyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy wahanol grwpiau llais y disgybl. Mae hyn wedi dylanwadu ar waith yr ysgol yn y gymuned, yn lleol ac yn ehangach wrth edrych ar ddigwyddiadau byd eang. Mae'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu, ac yn dyfalbarhau'n effeithiol yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn hynod foesgar gyda'i gilydd, a gydag oedolion.

Cryfder arbennig ar draws yr ysgol yw'r cyfleoedd cyson i ddatblygu ystod eang o fedrau'r disgyblion drwy'r defnydd effeithiol iawn o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae cynllunio trwyadl yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau digidol i safon uchel iawn.

Mae blaenoriaethau'r ysgol, ar y cyfan, wedi deillio o adnabyddiaeth arweinwyr o'u hysgol. Mae'r cynllun gwella wedi ei adolygu yn ddiweddar ac, yn gyffredinol, mae'n cynnwys gweithgareddau addas i arwain at wella'r meysydd blaenoriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol bob amser yn ddigon penodol na miniog.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion

A2 Gwella ansawdd a chysondeb adborth athrawon i sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth i'w wneud i wella eu gwaith

A3 Miniogi cynllunio strategol i yrru blaenoriaethau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas a'r defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn modd cyfoes, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn dysgu a chaffael medrau yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn datblygu'n dda o'u mannau cychwyn, ac mae grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u targedau unigol.

Yn y ffrwd Saesneg, mae medrau gwrando a siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Maent yn dechrau darllen Saesneg gan ddefnyddio strategaethau addas o oedran cynnar, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl a hyderus. Er enghraifft, maent yn darllen am faterion cyfoes ac yn mynegi eu barn ar wahanol bynciau yn ddeallus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau siarad a gwrando Cymraeg yn addas. Er enghraifft, maent yn cyfleu manylion personol a hoffterau, ac yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml wrth drafod y tywydd. Ar y cyfan, mae disgyblion hŷn yn parhau i ddangos agwedd gadarnhaol tuag at siarad Cymraeg. Maent yn datblygu medrau gwrando er mwyn dod i ddeall yr iaith yn gynyddol, ac yn adeiladu ar eirfa sylfaenol a phatrymau cystrawennol y maent wedi eu dysgu islaw yn yr ysgol. Yn y ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando effeithiol ac yn dod yn siaradwyr Cymraeg sydd yn gynyddol hyderus o oedran cynnar. O ganlyniad, gallent gymryd rhan mewn gwersi'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol. Mae llawer yn datblygu medrau darllen Cymraeg yn addas, gan ddefnyddio eu dealltwriaeth o ffoneg i seinio a datgodio geiriau anghyfarwydd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn darllen cliwiau i ddarganfod ble ar dir yr ysgol mae'r môr-leidr wedi gadael ei gist drysor. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae'r rhan fwyaf yn dechrau datblygu medrau darllen Saesneg yn dda, gan ddod yn ddarllenwyr rhugl erbyn iddynt adael yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y ddwy ffrwd iaith yn datblygu medrau ysgrifennu addas. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu cerddi am y gofod. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu erthygl papur newydd am wy draig ddychmygol, a llythyr ffurfiol yn gofyn i gwmni meddalwedd fuddsoddi mewn gêm maent wedi ei chynllunio. Ar y cyfan, nid ydynt yn mireinio darnau o ysgrifennu estynedig yn ddigonol i'w galluogi i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif, er enghraifft wrth gyfrifo niferoedd y trychfilod mewn gwahanol rannau o dir yr ysgol, a gweithio allan perimedr rhannau gwahanol o bentref Handa. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin data gyda hyder, er enghraifft wrth greu siart bar i ddangos hoff frîd defaid disgyblion y dosbarth. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol i ystyried sefyllfaoedd byd go iawn, er enghraifft drwy gyfrifo'r elw y gellid ei wneud drwy werthu gwahanol eitemau mewn becws.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau digidol i safon uchel iawn. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cyflwyno gwybodaeth am losgfynyddoedd

gan ychwanegu delweddau a thestun, yn cyfansoddi cerddoriaeth, ac yn dechrau defnyddio cod i raglennu dyfeisiau. Wrth symud drwy'r ysgol mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau digidol ymhellach yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio medrau codio i greu oriawr sy'n cyfrif camau'r disgyblion wrth iddynt gerdded o amgylch yr ysgol i gadw'n heini.

Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwneud lluniau sialc trawiadol o'r Llwybr Llaethog, ac yn arbrofi gyda phaent a chlai i wneud siapiau Celtaidd. Mae disgyblion hŷn yn dehongli'r Blitz yn ddramatig gan gyfuno silwét a lliw, ac yn arlunio anifeiliaid y goedwig law yn grefftus. Mae llawer yn datblygu medrau cerddorol yn effeithiol, er enghraifft drwy gyfansoddi brawddeg gerddorol gydag offerynnau taro, ac yn ddiweddar maent yn dechrau datblygu medrau chwarae offeryn allweddellau yn addas.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau corfforol yn dda drwy'r ysgol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sydd yn hybu eu hiechyd a'u lles, fel chwarae gemau tîm a chymryd rhan mewn sesiynau athletau, dawns a gymnasteg.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser hamdden. Maent yn gwrtais ac yn estyn croeso i ymwelwyr. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi ac yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau a baratowyd ar eu cyfer, gan gydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion. Gall bron pob un ohonynt ganolbwyntio am gyfnodau o amser a chwblhau tasgau'n llwyddiannus. Maent yn ymateb yn briodol wrth wynebu heriau, er enghraifft wrth gyfeirio at yr 'Yeti Dal Ati' mae'r ysgol wedi ei fabwysiadu i hyrwyddo dyfalbarhad. Maent yn gwrando ar gyfraniadau oedolion a'u ffrindiau ac yn ymateb yn briodol. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn dechrau datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol, er enghraifft pan fydd disgyblion hŷn yn gweithio mewn grwpiau i gynllunio gêm gyfrifiadurol am lygredd môr, a phan fydd disgyblion iau yn cymryd rhan mewn tasgau annibynnol yn ystod sesiynau 'Drosodd i chi'. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ar lafar gan staff. Pan gânt y cyfle, mae ychydig yn dechrau mireinio a gwella eu gwaith yn llwyddiannus o ganlyniad i adborth ysgrifenedig.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymuno â grwpiau sydd â chyfrifoldebau am agweddau gwahanol o fywyd yr ysgol, gyda'r aelodau yn dechrau dylanwadu'n gadarnhaol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg wedi annog eu cyfoedion i ddysgu'r anthem genedlaethol eleni, ac maent yn gyfrifol am hybu diwylliant Cymreig trwy chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn ystod amser cinio yn wythnosol. Mae'r Arweinwyr Digidol yn hybu diogelwch ar y we trwy osod posteri o amgylch yr ysgol gan ei berthnasu i hawliau plant i fod yn ddiogel, ac yn ddiweddar maent wedi sefydlu clwb ar ôl ysgol i ddisgyblion ymarfer medrau digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os oes pryder ganddynt. Mae llawer yn gwerthfawrogi cefnogaeth eu cyfoedion; er enghraifft, maent yn mynychu'r 'Cwtsh' ar fuarth yr ysgol yn ystod amser cinio i

dreulio amser gyda'r 'bydis' sydd yn rhedeg y cyfleuster. Mae llawer yn gwneud dewisiadau iachus yn ystod eu hamser hamdden. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd o ystod o adnoddau y mae aelodau Cyngor Chwaraeon yr ysgol yn darparu ar eu cyfer ac offer parhaol fel y maes antur. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi bod staff yr ysgol yn gwrando ar eu barn, ac yn eu cefnogi i wneud gwelliannau i'r ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cefnogi cynlluniau aelodau'r Cyngor Eco i ddatblygu pwll bywyd gwyllt ar dir yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu at brosiectau sy'n hybu eu lles. Er enghraifft, mae'r prosiect 'Sebon â Chalon' yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu'n ddinasyddion moesegol a mentrus. Yn ystod y prosiect, maent yn dysgu am hawliau'r plentyn i ddŵr glan a datblygu empathi tuag at blant yn Affrica sy'n wynebu anawsterau o ran cael dŵr. Mae disgyblion yn awgrymu syniadau ar gyfer codi arian, fel gwneud eu sebon eu hunain gan ddatblygu medrau mentergarwch yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn pleidleisio ar eu hoff bersawr ac yn defnyddio meddalwedd trin data yn fedrus i gyflwyno'r canlyniadau er mwyn blaenoriaethu pa sebon i'w greu. Yna, maent yn mynd ati i hysbysebu ar-lein ac yn y papur bro ac yn gwerthu'r cynnyrch yn y gymuned, gan ysgrifennu at fusnesau lleol i ofyn am gymorth. Maent yn defnyddio meddalwedd yn fwriadus i olrhain yr elw. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant yn llwyddiannus iawn.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm, sef 'Llwybrau Llwyddiant yn Llifo'n Llan'. Mae hyn yn seiliedig ar hanes enwog lleol William Morgan yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Mae'r weledigaeth hon yn cefnogi athrawon i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sydd yn ennyn a chynnal diddordeb, a diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r addysgu yn gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sydd yn cefnogi dysgwyr i fod yn uchelgeisiol a hyderus mewn cyd-destun Cymreig.

Mae'r staff yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gadarn ac mae hyn yn atgyfnerthu eu dysgu a'u mwynhad o ddefnyddio'r iaith yn dda. Mae'r holl oedolion yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chyson, sy'n naturiol i'w hardal leol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth gaffael a datblygu medrau Cymraeg.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n fedrus sydd yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Un o nodweddion mwyaf effeithiol y ddarpariaeth yw bod athrawon yn teilwra'r gweithgareddau dysgu'n grefftus ac yn manteisio ar gyfleoedd ysgogol i herio'r disgyblion i lwyddo. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a chreadigol yn effeithiol wrth ddylunio a chreu gardd i ddenu gwenyn. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau dysgu go iawn.

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion er mwyn sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn wrth i staff baratoi ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Cryfder arbennig ar draws yr ysgol yw'r cyfleoedd cyson i ddatblygu ystod eang o fedrau'r disgyblion drwy'r defnydd effeithiol iawn o TGCh. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion drwy'r ysgol. Er enghraifft, mae plant Blwyddyn 2 yn creu algorithmau i wneud teclyn digidol goleuo er mwyn helpu'r crwbanod deithio'r ffordd gywir i'r môr. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn creu gemau digidol o ansawdd uchel er mwyn codi ymwybyddiaeth amryw gynulleidfa o lygredd plastig yn y môr.

Llwydda'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd lliwgar a rhyngweithiol y dosbarthiadau a'r coridorau yn cefnogi'r addysgu yn grefftus ynghyd â dathlu llwyddiannau amryw brosiect yn ardderchog.

Mae athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn annog y disgyblion i feddwl drostynt eu hunain a chymryd elfen o gyfrifoldeb dros eu dysgu. Ar gychwyn themâu ac unedau o waith, caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i rannu syniadau am eu dysgu, er mwyn annog cyfranogiad llawn bob disgybl. Mae hyn yn galluogi athrawon i fentro'n greadigol i gyflwyno gweithgareddau cyffrous sydd yn ysbrydoli disgyblion ac yn tanio'u chwilfrydedd. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion iau gymhwyso eu medrau'n llwyddiannus mewn gweithgareddau sydd wedi eu hawgrymu ganddynt fel rhan o'r sesiynau penodol 'Drosodd i chi'. Mae'r disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd i ymgymryd â phrosiectau byr bachog sydd yn dwysàu eu dealltwriaeth ac ehangu eu gwybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr i wleidyddion yn mynegi eu pryder am lygredd plastig yn ein moroedd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnig gweithgareddau buddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau bwriadus ac annibynnol am eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm yn annibynnol.

Mae cydweithio effeithiol rhwng holl staff yr ysgol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r dysgu yn llwyddiannus drwy arwain gweithgareddau gydag unigolion a grwpiau o blant. Ar y cyfan, mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, cywir a dibynadwy. Yn bennaf, mae adborth llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n gymorth defnyddiol i ddisgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu, er enghraifft er mwyn cyfoethogi darnau o ysgrifennu estynedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Llanrhaeadr ym Mochnant yn gymuned deuluol, ofalgar a chroesawus sy'n rhan annatod o'r pentref a'r ardal ehangach. Mae cefnogaeth i anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion wedi gwreiddio yn holl waith yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn arddangos parch at eraill a balchder yn eu cymuned.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn i adnabod anghenion addysgol disgyblion ac maent yn darparu ymyrraeth mewn modd sensitif a phriodol yn yr ystafell ddosbarth a

thu hwnt. Y pennaeth dros dro yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n sicrhau bod cynlluniau addysg unigol disgyblion yn gyfredol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad i'r ddarpariaeth a'r monitro, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

Mae'r ysgol yn gynhwysol ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Er nad oes amrywiaeth fawr o ddisgyblion o wahanol gefndiroedd yn yr ysgol, mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth gref o gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r gwasanaethau cydaddoli a chyfnodau meddylgarwch yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu empathi a thosturi at eraill fel y ffoaduriaid o Syria a'r Wcrain. Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i gyfrannu i'w cymuned leol ac elusennau. Er enghraifft, maent wedi llwyddo i godi arian sylweddol tuag at blant mewn angen ac elusen ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Yn ogystal, mae disgyblion yn cynnal cyngherddau ac yn cystadlu mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae'r cyfleoedd niferus iawn i ddisgyblion  gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio eu bywyd yn yr ysgol yn gryfder. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu i'r grwpiau ac maent yn dylanwadu'n gryf ar waith yr ysgol. Enghraifft arbennig o hyn yw gwaith y pwyllgor gwrth fwlio sydd wedi sicrhau bod man tawel a diogel i ddisgyblion ymgynnull amser cinio ac egwyl. Mae 'bydis yr iard' yn cadw golwg ar unigolion sy'n teimlo'n fregus yn ystod yr amseroedd hyn. Yn ychwanegol, mae'r grŵp 'bwyd a ffitrwydd' wedi llwyddo i sicrhau offer chwarae er mwyn i'w cyd-ddisgyblion allu ymarfer corff y tu allan i wersi.

Mae gan yr ysgol systemau a phrosesau cadarn ar gyfer diogelu disgyblion. Mae'n cyfrannu'n helaeth at greu diwylliant o ddiogelu a sicrhau lles disgyblion o fewn yr ysgol, yn eu cymuned ac ar lein. Mae'r safle a'r adeilad mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn yn ddiogel ar y we yn effeithiol. Mae'r arweinwyr digidol, y cydlynydd TGCh ac asiantaethau allanol yn sicrhau bod negeseuon pwysig am ddiogelwch yn cael eu trosglwyddo'n rheolaidd i'r holl ddisgyblion, staff a rhieni. Mae trefniadau'r ysgol felly ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth dros dro yn cydweithio'n effeithiol gyda'r holl staff i sicrhau awyrgylch gynhaliol a gofalgar. Mae'n cael ei chefnogi'n fuddiol iawn gan bennaeth strategol ddeuddydd yr wythnos. Mae gan staff ddealltwriaeth gref o anghenion y disgyblion a'r gymuned ac mae gwaith yr ysgol yn seiliedig ar weledigaeth gadarn o sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr addysg orau ac yn rhan werthfawr o deulu'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn hapus o fod yn yr ysgol ac yn arddangos agweddau cadarnhaol at y dysgu.

Mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn ymgymryd â chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn briodol ac mae'r targedau yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac yn caniatáu i staff ddilyn trywydd meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r pennaeth strategol wedi adolygu'r targedau yn ddiweddar, ac er bod y pandemig wedi effeithio ar y cylchoedd rheoli perfformiad blaenorol,

mae'r cylch presennol ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn ôl y disgwyl. Mae cyswllt clir rhwng y rheoli perfformiad ac anghenion dysgu proffesiynol.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau cenedlaethol ac i heriau diweddar y pandemig. Mae arweinwyr yn sicrhau diwylliant cryf o ddiogelu yn yr ysgol. Mae'r staff i gyd yn deall eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel. Maent yn cynllunio'n ofalus ar y cyd â disgyblion i sefydlu'r Cwricwlwm i Gymru fel ei fod yn berthnasol i'r ysgol, y gymuned a'r byd ehangach.

Mae trefniadau addas i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn uniongyrchol trwy weithgareddau fel arsylwi, craffu ar lyfrau a holi disgyblion yn galluogi arweinwyr i werthuso cynnydd yn fuddiol yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae blaenoriaethau'r ysgol, ar y cyfan, wedi deillio o adnabyddiaeth arweinwyr o'u hysgol. Mae'r cynllun gwella wedi ei adolygu yn ddiweddar ac, yn gyffredinol, mae'n cynnwys gweithgareddau addas i arwain at wella'r meysydd blaenoriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol bob amser yn ddigon penodol na miniog, er enghraifft ar gyfer gwella ysgrifennu estynedig. O ganlyniad, nid yw'n ddigon clir beth yn union sydd angen ei wella yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn gyfeillion beirniadol buddiol. Maent yn ymgymryd â'u rôl ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol. Maent yn craffu ar lyfrau a chyfarfod â disgyblion i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol i'w galluogi i herio'r arweinwyr yn briodol. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio â staff a'r disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gyllideb ac adnoddau yn ofalus. Mae'r gwariant yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau gwella. Gwenir defnydd pwrpasol o'r grant amddifadedd disgyblion i sicrhau bod disgyblion bregus yn cael eu cefnogi ac nad ydynt yn methu profiadau gwerthfawr.

Mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a rhieni. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am weithrediad yr ysgol ac am addysg eu plant trwy ddulliau amrywiol fel yr app i rieni, e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2022